# Cryfhau ein hymagwedd at ddiogelu gyda Chofrestrau Achrededig

*Ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno gofynion i ofyn am wiriadau cofnodion troseddol*

15 Tachwedd 2022

professional standards authority

## Ynglŷn â’r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae’r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy’n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy’n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

Rydym yn goruchwylio gwaith 10 corff statudol sy’n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer.

Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy’n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu’r sefydliadau sy’n bodloni ein safonau.

I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoledd y gweithlu iechyd a gofal.

Ein gwerthoedd sefydliad yw: cywirdeb, tryloywder, parch, tegwch a gwaith tîm. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwerthoedd yn ganolog i'n gwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 4
2. Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn ........ 5
3. Newidiadau arfaethedig i'r Safonau ........ 11
4. Cwestiynau ymgynghori ........ 12
5. Asesiad Effaith ........ 14
6. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ........ 15
7. Cyfrinachedd ........ 15
8. Ein Proses Ymgynghori ........ 16

professional standards authority

## 1. Cyflwyniad

### Pwrpas yr ymgynghoriad

1.1 Mae’r ymgynghoriad hwn yn casglu barnau a gwybodaeth ynghylch y potensial i ddiwygio'r *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig*[1] i gynnwys gofynion mwy pendant ar ddiogelu.

1.2 Gallwch ymateb i’r papur ymgynghori hwn trwy gwblhau'r ddogfen Word sydd ar gael yma a’i chyflwyno trwy e-bost at:

1.3 ARconsultation@professionalstandards.org.uk

Dychwelwch eich ymateb atom erbyn 11.59pm ar 7 Chwefror 2023.

### Ein rôl ac am Gofrestrau Achrededig

1.4 Mae’r Awdurdod Safonau Proffesiynol. yn helpu amddiffyn y cyhoedd trwy ein gwaith gyda sefydliadau sy'n cofrestru a rheoleiddio pobl sy’n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Sefydlir ein rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2002 (fel y'i diwygiwyd).

1.5 Mae tri phrif faes i'n gwaith:

- Rydym yn goruchwylio gwaith y deg corff statudol sy’n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
- Rydym yn achredu'r cofrestrau a gedwir gan gyrff cofrestru anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
- Ein nod yw gwella rheoleiddio trwy ddarparu cyngor i lywodraeth y Deyrnas Unedig ac eraill, cyflawni/comisiynu ymchwil a hyrwyddo egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir.

1.6 Datblygwyd y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn dilyn cyhoeddi Papur Gorchymyn y Llywodraeth *Galluogi Rhagoriaeth*[2] yn 2011. Mae'r papur hwn yn nodi'r rhesymeg dros system gymesur o gofrestru gwirfoddol sicr ar gyfer grwpiau galwedigaethol proffesiynol nad ydynt ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i reoleiddio proffesiynol statudol.

1.7 Mae’r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol[3] yn nodi ein swyddogaethau a'n dyletswyddau i achredu cofrestrau gwirfoddol, sef:

1) i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr gofal iechyd, defnyddwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr, defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn Lloegr ac aelodau o’r cyhoedd mewn perthynas â pherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol,

2) i hyrwyddo arfer gorau o ran perfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol, ac

---

[1] Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig (professionalstandards.org.uk)
[2] 1 https://www.gov.uk/government/publications/enabling-excellence-autonomy-and-accountability-forhealth-and-social-care-staff
[3] Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (legislation.gov.uk)

3) i ffurfio egwyddorion llywodraethu da ym mherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol ac i annof personau sy'n cynnal neu weithredu cofrestrau gwirfoddol achrededig i gydymffurfio â'r egwyddorion hynny.

1.8 Mae Adran 25G o'r Ddeddf yn nodi er mwyn achredu cofrestr wirfoddol, y gall yr Awdurdod ei hasesu yn erbyn meini prawf y mae'n eu gosod a'u cyhoeddi. Mae cofrestr wirfoddol dan y diffiniad hwn yn gofrestr o'r bobl sy'n gweithio mewn rolau gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig, a gofal cymdeithasol yn Lloegr, nad oes yn rhaid iddynt gael eu rheoleiddio i weithio.

### *Newidiadau yn 2021 yn dilyn adolygiad strategol*

1.9 Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom gyflwyno dull asesu newydd, gydag asesiad llawn yn erbyn y Safonau unwaith bob tair blynedd, a gwiriad blynyddol yn y cyfamser. Cyflwynwyd model ffioedd diwygiedig gennym sy'n adlewyrchu'n well y meintiau amrywiol o seiliau cofrestryddion. Cyflwynwyd 'prawf budd y cyhoedd' newydd hefyd (Safon 1b), sy'n ein galluogi i bwyso a mesur a yw risgiau'r prif weithgareddau a gynigir gan gofrestryddion yn drech na'r buddion.

1.10 Cyflwynwyd ein Safonau diwygiedig[4] ym mis Gorffennaf 2021 gyda fframwaith tystiolaeth[5] yn manylu ar y gofynion sylfaenol ar gyfer pob Safon.

1.11 Un o amcanion allweddol tymor hwy a gododd o'r adolygiad strategol o'r rhaglen oedd mynd i'r afael â bwlch diogelu o ran gwiriadau cofnodion troseddol. Hyd yn hyn, mae Cofrestrau Achrededig wedi profi rhwystrau o ran cael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol manylach, oherwydd nid ydynt yn cael eu hystyried yn gyflogwyr. Mae hyn wedi golygu nad yw cofrestryddion hunangyflogedig wedi bod yn destun gwiriadau mewn llawer o achosion.

1.12 O'i gymharu â hyn, mae achrediad yn wirfoddol ac nid yw'r gofyniad am wiriad cofnodion troseddol yn ofyniad cyfreithiol, hyd yn oed pan fo rhywun yn gymwys. Rydym yn ceisio barn drwy'r ymgynghoriad hwn i'n helpu i sefydlu sut i sicrhau y gall pobl fod yn hyderus yn y gwiriadau y mae ymarferwyr Cofrestrau Achrededig wedi'u cynnal, heb ychwanegu baich diangen neu ddyblyg. Yn ychwanegol at hyn, rhaid i'r rhesymeg dros wneud cais am ddatgelu gwybodaeth am euogfarnau sydd wedi darfod fod yn glir, wedi'i hategu gan bolisïau i sicrhau bod pobl sydd â chofnod troseddol yn cael eu trin yn deg.

## 2. Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

### Cryfhau diogelu

2.1 Mae diogelu yn derm eang, ond yn gyffredinol mae'n cyfeirio at gamau a gymerwyd i amddiffyn grwpiau agored i niwed rhag niwed. Mae 'grwpiau agored i niwed' yng nghyd-destun gofal iechyd yn cynnwys plant, a phobl sy'n derbyn gofal iechyd. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw un fod yn agored i niwed ac y gallai hyn fod dros dro. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i ddiffiniadau o oedolion agored i niwed yn amrywio ledled y DU.

2.2 Bydd y camau gweithredu sydd eu hangen ar gyfer diogelu yn amrywio yn ôl cyd-destun. Mae elusen y DU, y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) yn cyfeirio at egwyddorion diogelu, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y

[4] https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accredited-registers/standards-for-accredited-registers/standards-for-accredited-registers.pdf?sfvrsn=cc2c7f20_6
[5] https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accredited-registers/standards-for-accredited-registers/accredited-registers-evidence-framework-for-standards.pdf?sfvrsn=55f4920_6

Llywodraeth: grymuso, atal, cymesuredd, amddiffyn, partneriaeth, ac atebolrwydd[6]. Mae'r Llywodraeth wedi datblygu canllawiau ar ddiogelu i elusennau ac ymddiriedolwyr[7].

2.3 O dan ein Safonau presennol, y prif ddulliau yr asesir dulliau diogelu yw:

- **Safon 2: Rheoli'r gofrestr**. Disgwyliwn i Gofrestrau ystyried penderfyniadau ynghylch ymddygiad proffesiynol a wneir gan gyrff rheoleiddio a Chofrestrau Achrededig eraill wrth benderfynu a ddylai person gael ei dderbyn ar y gofrestr
- **Safon 3: Safonau ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru.** Rhaid i gofrestrau hefyd gael fframwaith moesegol cyhoeddedig, sy'n cynnwys atebolrwydd, gonestrwydd, bod yn agored, uniondeb, parch, ac egwyddorion y Ddyletswydd Gonestrwydd broffesiynol.
- **Safon 5: Cwynion a phryderon am y rhai a gofrestrir.** Disgwyliwn i Gofrestrau gael prosesau ar gyfer ymdrin â phryderon diogelu, gyda chyfeirio priodol. Rhaid i benderfyniadau sy'n ymwneud â chofrestru neu gwynion fod ar wahân i Fyrddau llywodraethu, er mwyn lleihau'r risg o wrthdaro buddiannau. Rydym hefyd yn gwirio bod ganddynt broses ar gyfer adrodd am bryderon i asiantaethau perthnasol eraill pan fo angen hynny er mwyn diogelu'r cyhoedd, megis yr Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.4 Rydym yn gwirio polisïau a phrosesau diogelu Cofrestrau Achrededig trwy ein hasesiadau. Er enghraifft, yn ein hasesiad diweddar o Gyngor Aciwbigo Prydain[8], nodwyd gennym fod ganddo bolisi cynhwysfawr ar ddiogelu pobl ifanc ac oedolion ond gwnaeth argymhellion gyda'r nod o gryfhau ei brosesau ar gyfer cyfeirio pryderon at gyrff priodol.

## Gwiriadau cofnodion troseddol

### *Mathau o wiriadau a chymhwysedd ar gyfer rolau gwahanol ar draws y DU*

2.5 Mae gwiriadau cofnodion troseddol yn helpu cefnogi egwyddor 'amddiffyn' arferion diogelu. Mae'r fframweithiau deddfwriaethol a'r asiantaethau sy'n gyfrifol am brosesu gwiriadau cofnodion troseddol yn amrywio ar draws y DU. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r trefniadau ar gyfer pob gwlad:

| Gwlad y DU | Deddfwriaeth ddiogelu berthnasol | Corff sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun |
|---|---|---|
| Cymru a Lloegr | Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 – Yn pennu'r hyn a ddatgelir mewn gwiriad DBS sylfaenol.<br>Mae Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 – yn rhoi cymhwyster ar gyfer gwiriadau DBS Safonol | Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) |

[6] Gweler: What are the six principles of safeguarding? | SCIE
[7] Am ddolenni i ganllawiau sy'n berthnasol i wlad yn y DU gweler: Trefniadau diogelu ar gyfer elusennau ac ymddiriedolwyr - GOV.UK (www.gov.uk)
[8] Paragraffau 3.12-3.14, canlyniad adolygiad blynyddol BAcC 2022 (professionalstandards.org.uk)

| | | |
|---|---|---|
| | Rhan V o Ddeddf yr Heddlu 1997 – mae'n caniatáu i'r DBS brosesu gwiriadau ac yn rhagnodi cymhwysedd ar gyfer Gwiriadau Manwl a Manylach â Rhestr Waharddedig (drwy Reoliadau).<br><br>Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 – yn nodi swyddogaethau Gwahardd y DBS ac yn rhagnodi beth yw gweithgaredd a reoleiddir. | |
| Gogledd Iwerddon | Gorchymyn Diogelu Grwpiau Hyglwyf Gogledd Iwerddon 2007<br>Gorchymyn Adsefydlu Troseddwyr (Gogledd Iwerddon) 1978 | Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) – gwiriadau Rhestr Gwahardd<br>Access NI |
| Yr Alban | Mae Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Gwaharddiadau ac Eithriadau) (Yr Alban) 2013 – yn rhoi cymhwyster ar gyfer gwiriadau Disclosure Scotland safonol<br><br>Mae Rhan V o Ddeddf yr Heddlu 1997, fel y mae'n berthnasol yn yr Alban – yn caniatáu i Disclosure Scotland wirio a rhagnodi cymhwysedd ar gyfer gwiriadau manwl a gwiriadau rhestri gwahardd manwl (drwy reoliadau)<br><br>Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (Yr Alban) 2007 – yn nodi swyddogaethau gwahardd Disclosure Scotland ac yn diffinio beth yw gwaith rheoledig. Caniatáu i Disclosure Scotland brosesu gwiriadau ar gyfer y rhai sy'n gwneud gwaith a reoleiddir gyda phlant oedolion. | Disclosure Scotland |

2.6 Mae deddfwriaeth ar waith ar draws y DU i ddiogelu hawliau pobl sydd â rhybuddion ac euogfarnau wedi darfod i ailymuno â chyflogaeth, ar ôl cyfnod o adsefydlu. Mae eithriadau i hyn, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn 'gwaith

a reoleiddir' (ar gyfer yr Alban) neu 'weithgarwch a reoleiddir (ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru) sy'n gymwys i gael y lefel uchaf o wiriadau. Bydd hyn yn cynnwys gwirio'r Rhestr Gwahardd Plant a/neu'r Rhestr Gwahardd Oedolion, yn dibynnu ar y math o waith a wneir.

2.7 Mae'r Rhestr Wahardd Oedolion a'r Rhestr Wahardd Plant yn berthnasol i'r DU gyfan. Mae’r DBS, Disclosure Scotland ac AccessNI yn hysbysu ei gilydd am newidiadau i’r rhestrau hyn. Mae’n anghyfreithlon i’r rhai sydd ar restr waharddedig ymgymryd â gwaith sy’n dod o dan y diffiniad o weithgaredd a reoleiddir neu waith a reoleiddir.

2.8 Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon mae tair prif lefel o wirio: sylfaenol, safonol a manwl (gan nodi bod AccessNI yn cynnal gwiriadau o fewn Gogledd Iwerddon). Gall gwiriadau manylach gynnwys gwiriad o'r rhestr wahardd berthnasol ar gyfer gweithgaredd a reoleiddir. Mae crynodeb o bwy all ofyn am y lefelau gwahanol o wiriadau ar gyfer Cymru a Lloegr, a pha wybodaeth y bydd y gwiriad yn ei darparu, isod:

| Math o wiriad | Pwy all wneud cais | Y wybodaeth a gynhwysir |
|---|---|---|
| Sylfaenol | Unrhyw un | Cofnod troseddol cyfredol, heb ei ddarfod |
| Safonol | Cyflogwyr neu reolyddion rolau penodol. Mae hyn yn cynnwys: ‘Unrhyw gyflogaeth neu waith arall sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd ac sydd o'r math hwnnw sy'n galluogi deiliad y swydd honno neu’r sawl a gyflogir i wneud y gwaith hwnnw i fod â chyswllt â phobl sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn ystod ei (d)dyletswyddau arferol (Geiriad deddfwriaethol 14)[9]. | Euogfarnau sydd wedi eu darfod a heb ddarfod. Mae hyn yn amodol ar hidlo[10] euogfarnau sy'n golygu na fydd troseddau hŷn, llai difrifol yn cael eu datgelu ar wiriadau Safonol a Manwl. |
| Manwl | Cyflogwyr neu reolyddion pobl sy'n cymryd rhan mewn 'gweithgarwch a reoleiddir'. | Euogfarnau sydd wedi darfod a heb ddarfod, gwybodaeth berthnasol gan yr heddlu, gwiriad o'r Rhestr Gwahardd Plant a/neu'r Rhestr Gwahardd Oedolion os gofynnir am hynny |

[9] Standards_eligibility_guide_v1.0_051118.pdf (publishing.service.gov.uk). Mae 'geiriad deddfwriaethol 14' yn deillio o ATODLEN 1 RHAN 2 o Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975
[10] Am ragor o wybodaeth gweler: https://www.gov.uk/government/publications/dbs-filtering-guidance/dbs-filtering-guide

2.9 Mae canllawiau gwahanol yn eu lle ar gyfer y diffiniadau o weithgarwch rheoledig ar gyfer Cymru a Lloegr[11], ac ar gyfer Gogledd Iwerddon[12].

2.10 Mae'r un lefelau yn bodoli yn yr Alban, ond gyda diffiniadau gwahanol[13]. Mae'r Cynllun Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (PVG) ar gyfer pobl sy'n gwneud 'gwaith a reoleiddir' gyda phlant ac oedolion gwarchodedig. Mae tystysgrif PVG yn cynnwys gwybodaeth debyg i'r datgeliad manwl ond gyda'r gwahaniaeth allweddol bod Disclosure Scotland yn monitro cofnodion aelodau cynllun PVG yn barhaus am wybodaeth fetio newydd a allai effeithio ar eu haddasrwydd i weithio gyda grwpiau agored i niwed.

2.11 Tra bo’r ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi bod pawb sy’n ofynnol i gofrestru i ymarfer gyda rheoleiddiwr statudol yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o ‘waith a reoleiddir’ neu ‘weithgaredd a reoleiddir’, nid oes darpariaeth ar hyn o bryd yn y ddeddfwriaeth i'r un peth fod yn berthnasol i'r Cofrestrau Achrededig. Yn lle hynny, rhaid tynnu'r diffiniad o'r math o waith y maent yn ei wneud ar unrhyw adeg benodol.

### *Cymhwysedd ar gyfer Cofrestrau Achrededig a'u hunigolion cofrestredig*

2.12 Hyd yma, rydym wedi bod yn gyfyngedig yn ein gallu i ofyn am Gofrestrau Achrededig i gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol. Y prif rwystr fu diffyg eglurder ynghylch dau brif faes: a ellir diffinio eu hunigolion cofrestredig fel gweithio o fewn 'gweithgaredd a reoleiddir' neu 'waith a reoleiddir', ac a yw peidio â bod yn rheoleddiwr statudol neu'n gyflogwr yn atal mynediad. Mae’r rhain yn bwyntiau pwysig i fod yn glir arnynt gan y byddai’n anghyfreithlon i gorff ofyn am wiriad ar gyfer rhywun nad yw’n gymwys ar ei gyfer.

2.13 Yn ein hymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad strategol o'r rhaglen, gofynnwyd am farnau ynghylch a ddylid diogelu'r cyhoedd, a ddylid caniatáu i'r Gofrestr Achrededig gael mynediad at wybodaeth am gollfarnau perthnasol sydd wedi darfod. Ar y cyfan, cytunodd 64% o'r ymatebwyr â'r datganiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys cyfran sylweddol o'r Cofrestrau Achrededig presennol a sefydliadau cysylltiedig. Rhannwyd gweddill yr ymatebwyr yn hanner rhwng y rhai a oedd yn anghytuno, a'r rhai nad oeddent yn siŵr.

2.14 Rydym wedi asesu cymhwysedd pob Cofrestr Achrededig gyfredol i gael mynediad at wiriadau manylach, gan ddefnyddio canllawiau a ddarparwyd gan y DBS, AccessNI a Disclosure Scotland. Rhoddir crynodeb yn Atodiad A. Rhoddir rhagor o fanylion am y gwahanol fframweithiau sydd ar waith ledled y DU isod.

#### *Cymru a Lloegr*

2.15 Ers i’r adolygiad strategol ddod i ben ym mis Gorffennaf 2021, rydym wedi gweithio’n agos gyda’r DBS i benderfynu a yw Cofrestrau Achrededig yn gymwys ar gyfer lefelau uwch o wiriadau, ac o dan ba amgylchiadau.

---

[11] Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/216900/Regulated-Activity-Adults-Dec-2012.pdf a https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/550197/Regulated_activity_in_relation_to_children.pdf

[12] Ar gael yn: Regulated activity adults NI Factual Note (health-ni.gov.uk) a Regulated Activity in relation to Children: (health-ni.gov.uk)

[13] Gweler: https://www.mygov.scot/disclosure-types

2.16 O dan y ddeddfwriaeth a'r diffiniadau presennol, y prif sefyllfaoedd lle bydd rhywun yn gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir yw os yw'n gweithio gyda phlant, a/neu os yw'n gwnselydd neu'n seicotherapydd yn gweithio gyda rhywun sydd wedi'i atgyfeirio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol (h.y. meddyg neu weithiwr proffesiynol arall y mae'n ofynnol ei gofrestru gyda chorff statudol i ymarfer).

2.17 Er mwyn profi'r trefniadau ymarferol, cynhaliom beilot gyda Chymdeithas Seicotherapyddion Plant (ACP), o fis Mawrth i fis Mehefin 2022. Roedd y cynllun peilot yn cynnwys cael mynediad at wiriadau manylach gan y DBS ar gyfer sampl fach o unigolion cofrestredig hunangyflogedig sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant mewn 'gweithgaredd a reoleiddir'. Defnyddiwyd corff ymbarél i brosesu'r gwiriadau. Dangosodd canfyddiadau'r peilot nad yw bod yn Gofrestr Achrededig ynddo'i hun yn rhwystr i gael mynediad at wiriadau DBS manylach.

2.18 Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o unigolion cofrestredig yn debygol o gael eu cyflogi gan gyrff sy'n cynnal eu gwiriadau eu hunain. Nid yw'r gyfran hon felly o reidrwydd yn cynrychioli'r grŵp yr hoffem i'r Cofrestrau Achrededig fod yn cael gwiriadau ar ei gyfer eu hunain. Roedd ein cynllun peilot yn canolbwyntio ar unigolion cofrestredig hunangyflogedig oherwydd ymddengys mai dyma'r bwlch mwyaf o ran gwiriadau ar hyn o bryd.

### *Gogledd Iwerddon*

2.19 Ar adeg yr ymgynghoriad, rydym yn gweithio gydag AccessNI a byddwn yn ystyried a oes angen canllawiau penodol er mwyn i Gofrestrau Achrededig gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol yng Ngogledd Iwerddon cyn cyflwyno unrhyw newidiadau i'n Safonau.

### *Yr Alban*

2.20 Rydym wedi datblygu canllawiau ar gyfer Cofrestrau Achrededig ynghylch gwiriadau cofnodion troseddol yr Alban gyda Disclosure Scotland, sydd ar gael ar ein gwefan[14].

### ***Adolygiad Annibynnol y Llywodraeth o'r Gyfundrefn Datgelu a Gwahardd***

2.21 Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth adolygiad annibynnol o'r Gyfundrefn Datgelu a Gwahardd[15]. Diben yr adolygiad yw rhoi sicrwydd i Weinidogion ynghylch effeithiolrwydd y drefn datgelu a gwahardd o ran diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Bydd yn cynnwys adolygu'r diffiniad o 'weithgarwch a reoleiddir', a ddefnyddir i benderfynu pwy sy'n gymwys ar gyfer gwiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bylchau cymhwyster ar gyfer gwiriadau datgelu ar gyfer pobl hunangyflogedig.

2.22 Bydd cwmpas yr adolygiad yn berthnasol i reolyddion statudol yn ogystal â'r Cofrestrau Achrededig. Er bod y rheolyddion statudol yn gallu gofyn am wiriadau manylach, dim ond un sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd fel rhan o'u gofynion cofrestru (y Cyngor Osteopathig Cyffredinol) yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

2.23 Mae'r adolygiad yn cyflwyno cyfle posibl i ehangu mynediad at wiriadau DBS uwch ar gyfer ymarferwyr Cofrestr Achrededig.

[14] Cofrestrau Gofal Iechyd Achrededig | Cynllun peilot diogelu (professionalstandards.org.uk)
[15] Adolygiad annibynnol o'r drefn datgelu a gwahardd - GOV.UK (www.gov.uk)

2.24 Yn y pen draw, mater i’r Llywodraeth yw pwy sy’n cael ei ystyried yn ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir. Byddem yn disgwyl i'r penderfyniad hwn gydbwyso'r risg i'r cyhoedd, hawliau cyn-droseddwyr, a materion cymesuredd.

2.25 Ar adeg ysgrifennu hwn, rydym yn disgwyl i adroddiad cychwynnol o'r Adolygiad Annibynnol gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn yr Hydref. Byddwn yn ystyried pa oblygiadau sydd gan hyn i Gofrestrau Achrededig a'r rheolyddion statudol cyn i ni gyflwyno unrhyw newidiadau.

## 3. Newidiadau arfaethedig i'r Safonau

3.1 Os byddwn, yn dilyn ymgynghoriad a chanfyddiadau Adolygiad Annibynnol y Llywodraeth, yn penderfynu cyflwyno gofyniad mwy penodol i Gofrestrau Achrededig gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol, bydd angen i ni gyflwyno hyn yn ein hasesiadau drwy Safonau diwygiedig. Mae'r adran hon yn nodi'r newidiadau arfaethedig i'r Safonau.

3.2 Y brif Safon yr asesir hyn drwyddi yw Safon Dau, Rheolaeth y Gofrestr. Mae hyn yn gofyn bod:

*‘Y sefydliad yn cynnal ac yn cyhoeddi cofrestr gywir o'r rhai sy'n bodloni ei ofynion yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar eu hymarfer.’*

3.3 Bydd y gofynion ar gyfer rhan 2a) o’r Safon hon, ‘Y broses gofrestru’, yn cael eu diweddaru’n cynnwys y gofyniad sylfaenol newydd a ganlyn:

*‘Mae’r Gofrestr yn sicrhau bod unigolion cofrestredig wedi cael lefel briodol o wiriad cofnodion troseddol cyn cael eu derbyn ar y gofrestr, ac i gynnal y gofrestr. Lle mae unigolyn cofrestredig yn gweithio o fewn y diffiniad o 'weithgarwch a reoleiddir' (ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru) neu 'waith wedi ei reoleiddio' (ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn yr Alban), dyma'r lefel uchaf o wiriad sydd ar gael gan gynnwys gwiriad o'r rhestr wahardd berthnasol.’*

### Canllawiau atodol i gefnogi'r newidiadau

3.4 Mae'n debygol y byddai angen datblygu canllawiau atodol gyda rhagor o fanylion, y gellir eu diweddaru os bydd y fframweithiau'n newid, i ategu unrhyw ofynion newydd yn y maes hwn. Byddai'r canllawiau hyn yn sail i'n hasesiadau o drefniadau Cofrestrau Achrededig unigol ar gyfer gwiriadau cofnodion troseddol.

3.5 Dyma’r mathau o feysydd y byddai angen i’r canllawiau fynd i’r afael â nhw:

- Amlder y gwiriadau
- Beth a ddisgwylir pan fydd unigolion cofrestredig eisoes wedi cael gwiriad cyflogwr
- Gwahaniaethau ar draws y fframweithiau sydd ar waith ar gyfer pedair gwlad y DU
- Ystyriaethau ar gyfer polisïau y mae angen iddynt fod yn eu lle fel sail i benderfyniadau ynghylch addasrwydd cofrestriad y rhai sydd ag euogfarnau neu rybuddion wedi darfod, er mwyn sicrhau bod cyn-droseddwyr yn cael eu trin yn deg

3.6 Mae gan y DBS, AccessNI a Disclosure Scotland ganllawiau manwl ar drefniadau ar gyfer cael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol sy'n cynnwys gofynion ar gyfer trin gwybodaeth, a'r prosesau ar gyfer cael gafael ar y gwiriadau.

### Gweithredu'r Safonau diwygiedig

3.7 Cyn i ni gyflwyno newid i'n Safonau, byddwn yn ystyried y wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad hwn, ac Adolygiad Annibynnol y Llywodraeth. Os yw'r Adolygiad yn nodi newidiadau sylweddol i'r fframwaith presennol, efallai y bydd angen i ni ymgynghori am yr eildro. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio gyda Chofrestrau Achrededig sy'n gymwys o dan y fframwaith presennol i gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol manylach i'w cefnogi i wneud hynny.

## 4. Cwestiynau ymgynghori

### Cwestiynau cyffredinol

1. Ym mha rinwedd ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

   [aelod o'r cyhoedd/Cofrestr Achrededig neu sefydliad cysylltiedig/ymarferydd y Gofrestr Achrededig/ymarferydd Cofrestr heb ei Hachredu/cymdeithas broffesiynol/corff cyhoeddus/arall]

2. A ydych yn cytuno bod cael gofyniad cliriach i Gofrestrau Achrededig ofyn am y lefel uchaf o wiriad cofnodion troseddol mae unigolyn cofrestredig yn gymwys ar ei gyfer, yn bwysig sicrhau diogelwch y cyhoedd? Esboniwch eich ateb.
3. A ydych yn cytuno bod cael gofyniad cliriach i Gofrestrau Achrededig ofyn am y lefel uchaf o wiriad cofnodion troseddol mae unigolyn cofrestredig yn gymwys ar ei gyfer, yn bwysig sicrhau hyder yn y Nod Ansawdd achredu? Esboniwch eich ateb.
4. A ydych yn cytuno, os yw unigolyn cofrestredig eisoes wedi bod yn destun lefel briodol o wiriad cofnodion troseddol gan gyflogwr, yna ni ddylai fod angen i Gofrestr Achrededig wneud hynny ar yr amod ei fod yn gallu gweld tystiolaeth o hyn?
5. A ydych chi’n ymwybodol o unrhyw enghreifftiau lle gallai risg o niwed i aelod o’r cyhoedd sy’n ceisio gwasanaethau ymarferydd Cofrestr Achrededig o bosibl fod wedi’i osgoi, drwy wiriad cofnodion troseddol? Peidiwch â darparu gwybodaeth bersonol sensitif yn eich ymateb.
6. Mewn achosion lle gallai Cofrestrau Achrededig gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol manwl ar gyfer ymgeiswyr neu unigolion cofrestredig, a manylion euogfarnau sydd wedi darfod a heb ddarfod, pa ffactorau ydych chi'n meddwl sy'n bwysig i'w hystyried mewn penderfyniadau gan y Gofrestr Achrededig ynghylch addasrwydd i fod ar y Gofrestr?
7. A ydych yn meddwl y dylid ystyried lefelau sylfaenol o wiriadau cofnodion troseddol, y gall unrhyw un gael mynediad iddynt, ar gyfer y rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer lefelau safonol neu uwch o wiriadau? (Yn berthnasol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn unig).

8. A oes unrhyw gamau eraill y credwch y dylem eu cymryd i gryfhau'r trefniadau diogelu ar gyfer defnyddwyr Cofrestrau Achrededig?

### Cwestiynau ar gyfer Cofrestrau Achrededig

4.1 Atebwch yr adran hon dim ond os ydych yn ymateb ar ran Cofrestr Achrededig. Peidiwch ag ateb os ydych yn ymateb ar ran sefydliad cysylltiedig. Mae hyn er mwyn i ni allu sicrhau data cywir.

9. A oes gennych broses ar gyfer nodi pa rai o'ch unigolion cofrestredig sy'n hunangyflogedig?
10. Os ateboch ‘nac oes’ ar gyfer Cwestiwn 5, a fyddech yn disgwyl unrhyw anawsterau wrth roi proses ar waith i nodi pa unigolion cofrestredig sy’n hunangyflogedig?
11. Os mai 'oes' oedd eich ateb i Gwestiwn 5, rhowch y wybodaeth isod fel y mae ar, neu mor agos at, 1 Hydref 2022. Os mai dim ond y cyfanswm DU gyfan y gallwch ei gwblhau, rhowch hwnnw.

| | Nifer o bersonau cofrestredig | Nifer yr unigolion cofrestredig hunangyflogedig |
|---|---|---|
| Lloegr | | |
| GI | | |
| Cymru | | |
| Yr Alban | | |
| Cyfanswm y DU gyfan | | |

12. A ydych yn cynnal unrhyw fath o wiriadau cofnodion troseddol ar hyn o bryd fel rhan o brosesau cofrestru? Os felly, rhowch fanylion pellach gan gynnwys a yw hyn ar gyfer unigolion hunangyflogedig neu bob unigolyn cofrestredig, a lefel y gwiriad a gyflawnwyd.
13. Ydych chi'n ystyried y bydd unrhyw un o'ch unigolion cofrestredig yn gweithio mewn 'gweithgaredd a reoleiddir' (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon) neu 'waith a reoleiddir' (yr Alban)? Mae Atodiad A yn nodi ein hamcangyfrif o gymhwysedd yn seiliedig ar ganllawiau gan y DBS, AccessNI a Disclosure Scotland.
14. Beth fyddai'r prif effeithiau ar eich sefydliad pe bai angen cynnal mwy o wiriadau nag ar hyn o bryd? Dywedwch wrthym am unrhyw faterion neu gyfyngiadau ymarferol megis adnoddau.
15. Os nad ydych yn meddwl bod eich Cofrestr Achrededig yn gymwys i gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol manwl o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, a fyddech yn cefnogi newidiadau i alluogi hyn? Esboniwch eich ateb.

### Cwestiynau i ymarferwyr

16. Ydych chi'n aelod o Gofrestr Achrededig ar hyn o bryd?
17. Ydych chi'n gweithio:
    a. Mewn practis preifat yn unig

b. Mewn practis preifat ac i wasanaeth/sefydliad
c. Ar gyfer gwasanaeth/sefydliad
d. Arall

18. Pa effaith y byddai'n ei chael arnoch chi pe bai angen i chi ddarparu tystiolaeth o wiriad cofnodion troseddol?
19. Yn eich barn chi, beth fyddai'r manteision/anfanteision i chi fel ymarferwr mewn perthynas â darparu gwiriad cofnod troseddol manwl i'ch Cofrestr Achrededig?
20. Yn eich barn chi, beth fyddai'r manteision/anfanteision i'ch cleientiaid mewn perthynas â darparu gwiriad cofnod troseddol manwl i'ch Cofrestr Achrededig?
21. Sut ydych chi'n rhagweld y byddwch yn gallu cael mynediad at wiriad cofnod troseddol manylach?

## 5. Asesiad Effaith

5.1 Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn deall unrhyw effaith neu faich mae ein cynigion yn debygol o greu er mwyn i ni allu ystyried unrhyw newidiadau priodol.

5.2 Ymhlith yr effeithiau yr ydym wedi'u nodi hyd yn hyn mae'r cynnydd mewn costau ar gyfer Cofrestrau ac unigolion cofrestredig. Mae angen i ni hefyd wneud yn siŵr nad yw unrhyw newidiadau a gyflwynwn yn trin pobl sydd â chofnod troseddol yn annheg.

5.3 Credwn y gellir cyflawni asesiad mwy cywir o effaith unrhyw newid unwaith y bydd prosesau gweithredol diwygiedig wedi eu datblygu, ond yn dal yn ystyrlon o effaith bosibl unrhyw newidiadau y byddwn yn eu harchwilio. Rydym yn gofyn am farnau'r rhai a effeithir, ac yn benodol y Cofrestrau Achrededig a chleifion a defnyddwyr gwasanaeth, o effaith debygol y newidiadau i'r broses a amlinellwyd yma.

22. Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion a sefydlir yn y papur hwn yn debygol o'u cael r eich sefydliad neu ystyriaeth y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion.
23. Cwestiwn: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw

- Cyfeiriadedd rhywiol
- Arall (nodwch)

24. Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

5.4 I’n helpu i ddeall pwy sydd â diddordeb yn y rhaglen ac sy'n ymateb i'n hymgynghoriad, byddai'n ddefnyddiol i wybod mwy amdanoch chi. Pe byddai'n well gennych chi beidio ychwanegu eich enw, gallech roi gwybod i ni, er enghraifft, eich maes gwaith neu ddiddordeb neu’r math o sefydliad rydych chi'n gweithio iddo (er enghraifft, ‘Dwi’n gweithio i gofrestr achrededig’ neu ‘Dwi'n gweithio gyda chofrestr achrededig’):

25. Eich enw ac/neu enw eich sefydliad.
26. Sut fyddech chi’n disgrifio’ch sefydliad (neu’ch rôl eich hun os yn fwy perthnasol)
27. A ydych yn fodlon i ni ddefnyddio eich sylwadau mewn unrhyw adroddiadau cyhoeddedig? Os felly, a ydych yn fodlon i ni gynnwys eich enw ac, os yw'n berthnasol, eich sefydliad?

## 6. Sut i ymateb i’r ymgynghoriad hwn

6.1 Gallwch ymateb i’r papur ymgynghori hwn drwy ddarparu ymateb ysgrifenedig mewn dogfen Word i’r cwestiynau a amlinellir yn y ddogfen hon i: ARconsultation@professionalstandards.org.uk. Cofiwch gynnwys rhifau'r cwestiynau a ddarparwyd.

6.2 Rydym yn annog anfon ymatebion trwy e-bost. Os nad yw hyn yn bosibl, ein cyfeiriad post yw:

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

6.3 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os ydych chi angen fersiwn hygyrch o’r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar 020 7389 8030 neu trwy e-bost at accreditationteam@professionalstandards.org.uk.

Dychwelwch eich ymateb atom erbyn 11.59pm ar 7 Chwefror 2023.

## 7. Cyfrinachedd

7.1 Byddwn yn rheoli’r wybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i’r papur trafod hwn yn unol â’n polisïau diogelwch gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan (www.professionalstandards.org.uk).

7.2 Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a’r Ddeddf Diogelu Data 1998 (DPA) a’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

7.3 Os ydych am i’r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae’n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy’n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai’n

ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol.

7.4 Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod.

7.5 Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partïon.

## 8. Ein Proses Ymgynghori

8.1 Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, 'Consultation principles: guidance'.[16] Wrth gyflawni ymgynghoriadau cyhoeddus ar agweddau o waith yr Awdurdod, rydym yn ceisio:

- Bod yn glir o ran y broses ymgynghori a'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddylanwadu ar ein syniadaeth ac ystyried manteision ac anfanteision ein cynigion.
- Ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y polisi fel bod diben i'r ymgynghoriadau.
- Roi digon o wybodaeth i sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â nhw yn deall y materion ac yn gallu darparu ymatebion gwybodus. Rydym yn cynnwys asesiadau o gostau a buddion a'r opsiynau a ystyriwyd.
- Ceisio barn gyfunol cyn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig, yn arbennig wrth ymgynghori ar gynigion newydd.
- Ymgynghori am gyfnod cymesur o amser, gan gasglu barnau ar natur ac effeithiau'r cynigion. Byddai ymgynghori am gyfnod rhy hir yn oedi datblygiad polisi ac nid yw ymgynghori'n rhy gyflym yn rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth a bydd yn lleihau safon yr ymatebion.
- Sicrhau bod ein hymgynghoriad yn dargedig i ystyried yr ystod lawn o randdeiliad, cyrff ac unigolion a effeithir gan y polisi a chynnwys grwpiau cynrychiadol perthnasol. Ystyried targedu grwpiau penodol os oes angen.
- Ystyried ymgynghori i fod yn broses barhaus, nid dogfennau ac ymatebion ffurfiol yn unig.
- Dadansoddi ymatebion yn ofalus ac esbonio'r ymatebion a dderbyniwyd a sut maent wedi hysbysu'r polisi. Rhoi adborth clir i'r rhai sy'n cymryd rhan yn dilyn yr ymgynghoriad. Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos neu esbonio pam nad yw hynny'n bosibl.
- Caniatáu amser priodol rhwng cau'r ymgynghoriad a gweithredu'r polisi.

8.2 Os oes gennych bryderon neu sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â:

Christine Braithwaite

[16] Swyddfa'r Cabinet. 2016 *Consultation principles: guidance*. Ar gael ar: Consultation principles 2016 (publishing.service.gov.uk) cyrchwyd 20 Gorffennaf 2022.

Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi
Awdurdod Safonau Proffesiynol 157-197
Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP
Ffôn: 020 7389 8030
Ffacs: 020 7389 8040
E-bost: christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk

## Atodiad D – Cymhwysedd i gael mynediad at wiriadau cofnodion troseddol

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o gymhwysedd cyfredol Cofrestrau Achrededig i gael mynediad at wiriadau lefel uwch ledled y DU. Ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon mae hyn yn Fanwl gyda Rhestr Wahardd. Ar gyfer yr Alban, mae'n aelod o'r Cynllun Diogelu Grwpiau Agored i Niwed. Yn yr Alban, byddai angen i'r gwiriadau gael eu gwneud ar hyn o bryd gan unigolyn preifat sy'n cyflogi ymarferydd Cofrestr Achrededig, yn hytrach na'r Gofrestr Achrededig ei hun.

| **Enw'r Gofrestr a nifer yr unigolion cofrestredig (ar 1 Ionawr 2022)** | **Nifer yr unigolion cofrestredig ar 1 Ionawr 2022** | **Rôl(au) cofrestredig** | **Gweithgaredd/gwaith a reoleiddir gyda phlant** | | | | **Gweithgaredd a reoleiddir/gwaith gydag oedolion** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Ll** | **Gl** | **A** | **C** | **Ll** | **Gl** | **A** | **C** |
| Academi Gwyddor Gofal Iechyd | 13,798 | Gwyddonwyr gofal iechyd (amrywiol rolau) | N | N | N | N | N | N | N | N |
| Cynghrair Ymarferwyr y Sector Preifat | 936 | Ymarferydd Iechyd Traed | Y | Y | Y | Y | N | N | N | N |
| Cymdeithas Seicotherapyddion Plant | 718 | Therapydd Plant, Cwnselydd, Seicotherapydd, Therapydd Siarad | Y | Y | Y | Y | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Cymdeithas Cynghorwyr Cristnogol | 891 | Cwnselydd, Seicotherapydd, Therapydd Siarad | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Athena Herd** | 30 | Gweithwyr gyda cheffylau | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Cyngor Aciwbigo Prydain | 1971 | Aciwbigwyr | Y | Y | Y | Y | N | N | N | N |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Brydeinig ar gyfer Cwnselwyr a Seicotherapyddion | 44,476 | Cwnselydd, Seicotherapydd, Therapydd Siarad | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Cymdeithas Seicotherapïau Ymddygiadol a Gwybyddol Prydain (BABCP)** | 7402 | Ymarferwyr Therapi Ymddygiad Gwybyddol | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain | 339 | Therapydd Plant, Cwnselydd, Therapydd Chwarae | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Cymdeithas Therapyddion Chwaraeon ac Adsefydlu Prydain | 1233 | Ymarferydd Adsefydlu Chwaraeon, Therapydd Chwaraeon | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Cyngor Seicdreiddiad Prydain | 1893 | Cwnselydd, Seicotherapydd, Therapydd Siarad | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Cymdeithas Hylendid Galwedigaethol Prydain** | 700 | Hylenwyr Galwedigaethol | N | N | N | N | N | N | N | N |
| Cymdeithas Seicolegol Prydain** | I’w gadarnhau | Ymarferwyr Lles Seicolegol (PWPs), Ymarferwyr Lles Plant (CWPs), Ymarferwyr Addysg | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Iechyd Meddwl (EMHPs), Cymdeithion Clinigol mewn Seicoleg (CAPs), Cydymaith Clinigol mewn Seicoleg Gymhwysol (CAAP) | | | | | | | | |
| COSCA (Counselling and Psychotherapy in Scotland) | 721 | Cwnselydd, Seicotherapydd, Therapydd Siarad | Amh | Amh | Y | Amh | Amh | Amh | Y | Amh |
| Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol | Therapi cyflenwol | Athrawon techneg Alexander, Aromatherapyddion, Therapyddion Bowen, Hydrotherapydd Colonig, Therapydd Cyflenwol, Therapydd Craniosacral, Hypnotherapydd, Therapydd Tylino, Aciwbigydd Micro-systemau, Iachawyr Naturiol, Therapydd Maeth, Adweithegydd, Therapydd Reiki, Therapydd Shiatsu, Therapydd Tylino Chwaraeon, | Y | Y | Y | Y | N | N | N | N |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Therapydd Chwaraeon | | | | | | | | |
| Cyngor Cymdeithion Ymarfer Iechyd** | 496 (Mehefin 2022) | Swyddog Cymorth Cyntaf, Ymatebwr Cyntaf, Cynorthwyydd Gofal Ambiwlans, Ymatebwr Meddygol yr Heddlu, Ymatebwr Meddygol Tân, Cynorthwyydd Gofal Brys, Technegydd Ambiwlans, Ymarferydd Ambiwlans Cyswllt, Myfyrwyr Parafeddygaeth | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| Human Givens Institute | 258 | Cynghorydd / Seicotherapydd | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Sefydliad y Tricholegwyr** | 191 | Tricholegwyr | Amh | Amh | Amh | Amh | N | N | N | N |
| Ffederasiwn Rhyngwladol Aromatherapyddion | 176 | Aromatherapyddion | Y | Y | Y | Y | N | N | N | N |
| Cyd-Gyngor Ymarferwyr Cosmetig | 667 | Ymarferydd cosmetig (nad yw'n llawfeddygol), Llawfeddyg adfer gwallt | Amh | Amh | Amh | Amh | N | N | N | N |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Cynghori Genedlaethol/Cymdeithas Hypnotherapi Cenedlaethol | 6553 | Cwnselydd, Hypnotherapydd, Seicotherapydd, Therapydd Siarad | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Play Therapy UK | 2378 | Therapydd Plant, Cwnselydd, Therapydd Chwarae, Therapydd Siarad | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Rhwydwaith Gweithwyr Adsefydlu Proffesiynol | 400 | Gweithwyr adfer golwg Arbenigwyr hwyluso golwg | Y | Y | Y | Y | N | N | Y | N |
| Save Face | 867 | Ymarferydd cosmetig (nad yw'n llawfeddygol) | Amh | Amh | Amh | Amh | N | N | N | N |
| Cymdeithas Ymarferwyr Seicoleg Ddyneiddiol y Deyrnas Unedig | 156 | Cwnselydd, Seicotherapydd, Therapydd Siarad | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Bwrdd Caplaniaid gofal Iechyd y Deyrnas Unedig | 374 | Caplan Gofal Iechyd | Y | Y | Y | Y | N | N | Y | N |
| Cyngor Seicotherapi'r Deyrnas Unedig | 8,461 | Therapydd Plant, Cwnselydd, Seicotherapydd, Therapydd Siarad | Y | Y | Y | Y | Y* | Y* | Y | Y* |
| Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig | 1229 | Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, | Y | Y | Y | Y | N | N | N | N |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Arbenigwyr Iechyd Cyhoeddus | | | | | | | | |
| Cymdeithas y DU ar gyfer Dadansoddi Ymddygiad** | 209 | Dadansoddwyr ymddygiad | Y | Y | Y | Y | N | N | Y | N |